Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (Diwygio Etc.) (Ymadael Â'r UE) 2018** |
| **DYDDIAD** | **26 Tachwedd 2018** |
| **GAN** | **Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip** |

**Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (Diwygio Etc.) (Ymadael Â'r UE) 2018**

**Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio**
<u>Deddfwriaeth ddomestig sy'n berthnasol i'r DU gyfan:</u>
<u>Mae'r offerynnau a ganlyn yn cael eu diwygio:</u>

- Gorchymyn y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth 2008; a
- Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Rheoli a Gorfodi, Trawsgydymffurfio, Craffu ar Drafodiadau ac Apeliadau) 2014.

Mae Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Awdurdod Cymwys a Chorff Cydgysylltu) 2014 yn cael eu dirymu.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Mae amaethyddiaeth yn fater datganoledig.

Nid yw'r offeryn hwn yn trosglwyddo swyddogaethau. Os bydd angen trosglwyddo swyddogaethau, bydd offeryn ar wahân yn ymdrin â hynny.

**Diben y diwygiadau**
Mae'r offeryn hwn yn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE sydd wedi'i dargadw i weithredu'n effeithiol a hefyd â diffygion eraill sy'n deillio o'r ffaith bod y DU yn ymadael â'r UE. Mae'n ymdrin â chywiriadau sy'n dechnegol o ran eu natur ac nad ydynt yn gwneud unrhyw newidiadau polisi arwyddocaol. Mae'r cywiriadau hyn, yn hytrach, yn addasu'r is-ddeddfwriaeth ddomestig (DU) hon i gynnwys telerau (cytunedig) newydd i sicrhau y bydd rhaglenni'r UE yn parhau i gael eu cyllido am weddill rhaglen 2014 i 2020, os na fydd cytundeb o ran Brexit. Yr OS hwn yw Offeryn Statudol cywiro cyntaf y DU sydd wedi'i gynnwys yn rhan o'r pecyn ehangach i gywiro'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol sy’n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-common-agricultural-policy-and-agriculture-and-horticulture-development-board-amendment-etc-eu-exit-regulations-2018

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae’r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i’r DU ymadael â’r UE. Mae hyn yn unol â’r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.